# Pobl ein Dyfodol

## Cyflwyniad

Prosiect ynni cynaliadwy yw Pobl ein Dyfodol ar gyfer ysgolion uwchradd. Mae'n dod â dau o'n prosiectau mwyaf llwyddiannus sef 'Pobl Ynni Ifanc' ac 'Eich Dyfodol Gwyrdd' ynghyd. Mae'r ddau brosiect wedi ennill gwobrau mawreddog ar gyfer eu cyfraniad tuag at addysg gynaliadwyedd.

Nod y rhaglen yw gostwng defnydd ysgolion o ynni a gwella cynaliadwyedd eu gweithredoedd tra'n cynnig cyfle addysgol gwerthfawr i fyfyrwyr. Trwy'r rhaglen, byddant yn datblygu amrywiaeth o sgiliau trosglwyddadwy, yn cynyddu eu hunanhyder ac yn datblygu ymwybyddiaeth o faterion amgylcheddol a'r ystod eang o gyfleoedd cyflogi sydd ar gael o fewn yr 'economi gwyrdd' sy'n ehangu'n gyflym.

## Her

Yn ychwanegol at gyflwyno'r anghenion a gofynion a adlewyrchir o fewn themâu ac egwyddorion ARWAIN, mae Pobl Ein Dyfodol (PED) yn seiliedig ar raglenni sydd â record wedi'i phrofi wrth gyflwyno ar ofynion yr agendâu gwleidyddol presennol yng Nghymru ac yn helpu cefnogi'r canlynol:

- Creu Mwynhad o Ddysgu
- Annog dinasyddiaeth weithgar
- Datblygu gweithlu arbennig o fedrus
- Gwella a Chynyddu cyfleoedd dysgu mewn STEM
- Cyfoethogi'r cwricwlwm STEM
- Gwneud gweithgareddau Gyrfaoedd a STEM yn gydnaws â chyngor ar opsiynau hyfforddi ac astudio a chydag anghenion cyflogwyr hefyd.
- Cadw sgiliau lleol trwy arddangos cyfle lleol i bobl ifanc
- Meithrin cydnerthedd tuag at dlodi
- Hysbysu ac annog buddsoddiadau mewn effeithiolrwydd ynni ac ynni adnewyddadwy
- Cynyddu gweithgaredd i addysgu am faterion ynni a gwireddu arbedion

## Ateb

Cyflwynwyd y prosiect o fewn pob ysgol fel a ganlyn:

## School Recruitment

- Recruit x5 schools to take part in the project

## Project Preparation

- Production of school energy diary
- Energy efficiency and renewable energy feasibility study
- Pre-project behaviour surveys

## Recruitment of School Energy Management Team

- 10 -20 pupils recruited through:
  - Recruitment assemblies
  - Interviews
- Allocation of job roles
- SEMT students complete pre-project survey

## Your Green Future

- An interactive event (open to all secondary schools in Powys but including schools signed up to OFP) which engages school students with a low carbon economy, and their potential role in creating this through their career choices.
- Students attend a series of interactive workshops looking at various sustainability issues as well as interacting with a range of businesses and education providers in our exhibition hall.



arwain
Powys
Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Student Training

- 3 x 1 hour training sessions:
  i) Energy and the environment
  ii) Energy efficiency and renewable energy
  iii) Energy use in schools

Global

Local

## School energy survey

- Investigating:
  - Heating
  - Insulation
  - Lighting
  - Electrical appliances

## Dissemination of findings

- School energy report
- Presentation to governors and senior management

## School energy campaign

- Students plan and run an energy awareness campaign to promote positive behaviour change in the school.
- This could tie into national and international events such as Earth Hour and students may decide to raise money for Solar Aid or raise money to implement energy efficiency measures in their school.
- The campaign may include an information evening to spread the message to parents and the wider community.

↓

## Workplace survey

- Students carry out work-based survey and report back to host organisation.

↓

## Evaluation

- Post-project surveys carried out and feedback from schools recorded and evaluated.

# Budd

Mae'r prosiect yn cynnig y buddion canlynol i ysgolion sy'n cymryd rhan:

- **Gwella'r cwricwlwm**
  Mae Pobl Ein Dyfodol yn cysylltu gyda'r cwricwlwm Cymreig yn enwedig rhaglenni astudiaeth ar gyfer gwyddoniaeth, daearyddiaeth, Addysg Bersonol a Chymdeithasol, TG, Saesneg a Mathemateg.
- **Hyrwyddo mwynhad o ddysgu**
  Gall myfyrwyr weld buddion uniongyrchol eu gwaith ar y prosiect ac mae ganddynt gyfle i gymhwyso eu gwybodaeth o'r cwricwlwm a sgiliau at gyd-destun byd go iawn.
- **Grymuso disgyblion: Cyswllt uniongyrchol ym mhrosesau gwneud penderfyniadau o fewn yr ysgol**
  Trwy'r prosiect, gall myfyrwyr gymryd rhan yn uniongyrchol mewn prosesau gwneud penderfyniadau o fewn eu hysgolion. Maent yn cyflwyno cynllun gweithredu i wella cynaliadwyedd o ran defnydd yr ysgol o ynni a'r gobaith yw y bydd rhai o'u hargymhellion yn cael eu rhoi ar waith.

- **Gwella hunanhyder myfyrwyr**
  Mae myfyrwyr yn gwella eu hunanhyder o ganlyniad i weithio ar brosiect sydd â deilliannau positif clir a thrwy gael clywed eu lleisiau. Maent yn gweld fod ganddynt y gallu i wneud gwahaniaeth o ddifrif i'w hysgol a'r byd ehangach.
- **Datblygu sgiliau y gellir eu trosglwyddo**
  Mae myfyrwyr yn datblygu ystod eang o sgiliau y gellir eu trosglwyddo gan gynnwys sgiliau gwaith tîm, rhifedd, llythrennedd a TG. Maent hefyd yn datblygu cynnydd mewn hyder wrth gyflwyno o flaen cynulleidfa a sgiliau siarad cyhoeddus allweddol. Wedi hynny, maent yn gallu defnyddio'r sgiliau hynny i wella eu gwaith cwricwlwm.
- **Cydlyniant: Dod â'r gymuned ysgol gyfan ynghyd**
  Mae'r prosiect yn dod â'r gymuned ysgol gyfan ynghyd wrth weithio tuag at achos cyffredin. Mae'r myfyrwyr hefyd yn rhyngweithio gyda staff cefnogi megis aelodau timau safle a chyllid yr ysgol mewn ffordd na fyddant o bosibl wedi'i wneud o'r blaen.
- **Dinasyddiaeth – Lleol a bydol**
  Mae Pobl Ein Dyfodol yn helpu myfyrwyr i ddatblygu fel dinasyddion cyfrifol ar lefel leol a bydol.
- **Dysgu sy'n ymwneud â gyrfaoedd**
  Mae myfyrwyr yn ymgeisio am safle ar Dîm Rheoli Ynni'r Ysgol, gan eu helpu i ddatblygu sgiliau allweddol wrth ymgeisio am swyddi a chael eu cyfweld. Maent yn cymhwyso'r wybodaeth a'r sgiliau y maent wedi'u datblygu i gyd-destun gwaith ac mae'r digwyddiadau Eich Dyfodol Gwyrdd yn eu helpu i ddatblygu ymwybyddiaeth o gyfleoedd cynyddol am gyflogaeth sydd ar gael o fewn yr 'economi werdd' a galwedigaethau cysylltiedig.
- **Dysgu sy'n ymwneud â STEM**
  Mae ffocws cryf o fewn gwaith ysgol a digwyddiadau Eich Dyfodol Gwyrdd ar ddatblygu gwybodaeth a sgiliau STEM a sut y gellir cymhwyso'r rhain er mwyn gwella cynaliadwyedd yr ysgol a gweithrediadau busnes. Mae myfyrwyr hefyd yn datblygu ymwybyddiaeth well o yrfaoedd a chyfleoedd hyfforddi sy'n ymwneud â STEM.
- **Datblygu cysylltiadau gyda chyflogwyr lleol a'r gymuned ehangach**
  Fe fyddwn yn cefnogi'r ysgol wrth ddatblygu cysylltiadau gyda chyflogwyr lleol trwy drefnu lleoliadau gwaith i fyfyrwyr a thrwy ddigwyddiadau Eich Dyfodol Gwyrdd. Bydd cysylltiadau gyda'r gymuned leol yn cael eu hatgyfnerthu trwy nosweithiau gwybodaeth, helpu ysgolion i atgyfnerthu eu rôl fel canolfannau cymunedol allweddol.
- **Cefnogi gwaith tuag at eco-ysgolion**
  Mae gweithgareddau'r prosiect yn cysylltu'n dda gyda'r cynllun gwobrwyo eco-ysgolion a gallant gynnig tystiolaeth werthfawr o weithgareddau gan fyfyrwyr sy'n ymwneud â chynaliadwyedd.
- **Gostwng y defnydd o ynni a'r costau**
  Mae ysgolion yn elwa o ostyngiad mewn costau o ganlyniad i leihau eu defnydd o ynni. Maent hefyd yn gwella cynaliadwyedd eu gweithrediadau, gan weithredu fel modelau rôl positif i'w myfyrwyr a'u cymunedau lleol.

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Canlyniad

Roedd y prosiect wedi diwallu ei nodau a chyflwyno'r buddion canlynol:

- **Cynyddu brwdfrydedd ac ymgysylltu gweithgar**
    - Roedd y prosiect mewn cysylltiad gyda 4554 o fyfyrwyr ar draws 10 o Ysgolion Uwchradd Powys, 2 Ysgol Arbennig ac 1 Ysgol Gynradd wedi'u gwasgaru'n gyfartal ar draws Powys.
    - Roedd 2718 o fyfyrwyr wedi cymryd rhan yn weithgar yng ngweithgareddau'r prosiect.
    - Roedd 156 o fyfyrwyr yn rhan o weithgareddau Tîm Rheoli Ynni Ysgol (SEMT). Roedd yr agwedd hon, yn arbennig, yn brofiad oedd yn cyfoethogi llawer ar gyfer y myfyrwyr oedd yn cymryd rhan. Mae gweithgareddau Tîm Rheoli Ynni Ysgol yn gweithio'n dda, yn enwedig wedi ailffocysu a gostwng y niferoedd o fewn y tîm yng Ngham 2.
    - Roedd 605 o fyfyrwyr wedi mynychu digwyddiadau Eich Dyfodol Gwyrdd.
- **Cynyddu dealltwriaeth pobl ifanc o ddyfodol carbon isel**
    - Roedd Timau Rheoli Ynni Ysgolion yn arddangos cynnydd o rhwng 25% a 40% yn eu gwybodaeth ar draws agweddau ar ddyfodol carbon isel.
    - Roedd cynnydd o 39% yng Ngham 1 o ran nifer y myfyrwyr a allai ddweud eu bod yn gwybod beth mae dyfodol cynaliadwy, carbon isel yn ei olygu.
    - Roedd 87% o fyfyrwyr yng Ngham 1 a 86% yng Ngham 2 wedi cynyddu eu gwybodaeth am ba ddewisiadau sy'n arwain at fywyd mwy cynaliadwy trwy bresenoldeb mewn digwyddiadau Eich Dyfodol Gwyrdd.
    - Nid oedd dros 96% o fyfyrwyr wedi clywed am Nodau Cynaliadwyedd y Cenhedloedd Unedig.
- **Cynnydd mewn sgiliau**
    - Dywedodd 100% o aelodau Tîm Rheoli Ynni Ysgol fod cynnydd mewn sgiliau gwaith tîm gyda sgiliau llythrennedd a sgiliau ymgeisio am swyddi yn sgorio'r uchel hefyd..
    - Roedd cyflwyniadau i Lywodraethwyr ac Uwch Dimau Arwain yn elfen bwysig i fyfyrwyr gan ei bod yn gwneud iddynt deimlo fod ganddynt lais.
    - Dywedodd 90% o fyfyrwyr yng Ngham 1 a 87% o fyfyrwyr yng Ngham 2 eu bod yn teimlo iddynt ddysgu pethau newydd o ddigwyddiadau Eich Dyfodol Gwyrdd. Roedd hyn yn cynnwys siarad/gwrando, gwaith tîm, gwneud penderfyniadau a datrys problemau.
    - Roedd cynnydd mewn hunanhyder yn thema gref trwy sylwadau Tîm Rheoli Ynni'r Ysgol.

arwain Powys
Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
LEADER
Llywodraeth Cymru Welsh Government

- **Profiad dysgu ac addysgu sydd wedi'i chefnogi**
    - Roedd 48% o fyfyrwyr yng Ngham 1 a 57% yng Ngham 2 yn teimlo fod digwyddiadau Eich Dyfodol Gwyrdd wedi eu helpu i wybod mwy am beirianneg.
    - Roedd athrawon yn teimlo fod digwyddiadau Eich Dyfodol Gwyrdd yn canolbwyntio ar agweddau sy'n berthnasol i'r cwricwlwm
    - Roedd athrawon yn teimlo fod digwyddiadau Eich Dyfodol Gwyrdd wedi rhoi syniadau iddynt ar gyfer gwaith trawsgwricwlaidd a rhyngweithio yn y dyfodol gyda busnesau.
- **Gostyngiadau a gefnogir yn y defnydd o ynni mewn ysgolion sy'n cymryd rhan**
    - Yn dilyn y prosiect yn union, mae gostyngiad o £4,036 wedi bod ar gyfartaledd ym miliau ynni Ysgolion Uwchradd sy'n cymryd rhan yng NGHAM 1 a £4,412 yng NGHAM 2 yn flynyddol. Nid yw'n eglur faint y gellir priodoli'r gostyngiad hwn i'r prosiect.
- **Allyriadau Carbon Is**
    - Fe wnaeth ysgolion ostwng cyfanswm o 79.91 $tCO_2$ yng Ngham 1 a 71.75 $tCO_2$ yng Ngham 2.

## Manylion Cyswllt y Prosiect

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch ag Owen Callender ar owenc@severnwye.org.uk neu edrychwch ar y wefan http://www.ourfuturespeople.org.uk/

## Logos Partneriaid/Arianwyr Cyfatebol

ARIENNIR GAN Y LOTERI GENEDLAETHOL
NATIONAL LOTTERY FUNDED
CRONFA LOTERI FAWR BIG LOTTERY FUND
PARC CENEDLAETHOL BANNAU BRYCHEINIOG
BRECON BEACONS NATIONAL PARK
Cronfa Datblygu Cynaliadwy
Sustainable Development Fund
arwain
Powys
Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
LEADER
Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Manylion Prosiectau

| Data allweddol | Manylion penodol y Prosiect |
|---|---|
| Cyflwynwyd gan | Asiantaeth Ynni Hafren Gwy Cyf. |
| Dyddiad Dechrau | Ionawr 2017 |
| Dyddiad Diwedd | Medi 2019 |
| Arweinydd Leader | Thema 4; Ynni Adnewyddadwy ar Lefel Gymunedol |

## Manylion

| Disgrifiad | Swm |
|---|---|
| Cyfanswm y Gwariant | £201,790.61 |
| Nawdd y Cynllun Datblygu Gwledig | £160,642.56 |
| Nawdd Cyfatebol | £41,148.05 |


Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cymru
Welsh Government